**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**009 - Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Esemptiadau Trawsgydymffurfio a Rheoleiddio Trosiannol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 11 Mai 2022*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio yn Senedd y DU i ben | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth y PAC a ddargedwir er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol gan nad yw'r DU yn un o aelod-wladwriaethau'r UE mwyach. Maent yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir:

- yn ymwneud â chyllid datblygu gwledig o gyllid Ewropeaidd a hyd rhaglenni rhai cynlluniau,
- yn ymwneud â rheolau trawsgydymffurfio a ddargedwir fel na fyddant yn gwrthdaro â rhwymedigaethau o dan gynlluniau rheoli tir domestig newydd,

- i ddileu cyfeiriadau aneffeithiol at “Aelod-wladwriaethau” a gofynion i wneud adroddiadau i’r Comisiwn Ewropeaidd, nad ydynt yn angenrheidiol yn y DU mwyach gan fod y cyfnod pontio wedi dod i ben.

Bydd y Rheoliadau hyn, ymhlith pethau eraill, yn sicrhau gweithrediad effeithiol darpariaethau ynghylch rhaglenni gwenynyddiaeth (cadw gwenyn) a rheolau marchnata olew olewydd.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â’r datganiad a osododd Llywodraeth Cymru ar 13 Mai 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu, nid yw’r Rheoliadau mewn grym eto (ac mae’r datganiad ysgrifenedig yn dweud y daethant i rym ar 12 Mai 2022).

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod materion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.